

UN ARLWYDD, UN EGLWYS UN FFYDD? Cyflwyniad dramatig

Cerddoriaeth organ.

Daw golau ar allor yng nghanol y llwyfan. O flaen yr allor, mae 4 pulpud, 2 ar ochr dde a 2 ar ochr chwith y llwyfan. Daw 6 o bobl i fyny at yr allor, 3 bob ochr. Maent yn cyd-ganu (Tôn: Thornbury):

Dy law, O Dduw, fu'n tywys
dy braidd o oes i oes,
a'r hanes sydd yn eglur
i bawb mewn cred a moes.
Ein tadau a fu'n dystion
i'rh nodded yn eu dydd,
gan arddel byth un Arglwydd,
un Eglwys ac un ffydd.

Llais 1: Am fil o flynyddoedd ers amser Iesu Grist, fe fu un Eglwys ...

Llais 2: A oedd yn anghytuno ...

Llais 1: Roedd yna ryw faint o anghytuno ers dyddiau'r Testament Newydd, ond un Eglwys oedd hi.

Pawb: Credwn yn Un ... Eglwys ... Lân ... Gatholig ... ac Apostolig.

Llais 1: Ac yna ...

Llais 2: Yn yr unfed ganrif ar ddeg, fe ymrannodd.

Llais 3: Roedd y Dwyrain a'r Gorllewin yn anghytuno.

Llais 4: Roedd Eglwys y Dwyrain yn dysgu bod yr Ysbryd Glân yn deillio o'r Tad.

Llais 5: Roedd Eglwys y Gorllewin yn dysgu bod yr Ysbryd Glân yn deillio o'r Tad a'r Mab.

Llais 6: Ac felly, o hyn allan, roedd yna ddwy Eglwys ...

Llais 1: Yr Eglwys Uniongred yn y Dwyrain ...

Llais 2: Ac Eglwys Rufain yn y Gorllewin.

Llais 1: Ond roedd y ddwy yn credu yn yr un Duw – Tad, Mab ac Ysbryd Glân.

Llais 6: Ac felly y bu pethau am bum can mlynedd arall.

Llais 5: Roedd pawb yn y Gorllewin yn perthyn i Eglwys Rufain.

Llais 4: Ac yna ...

Llais 2: Fe ymrannodd yr Eglwys honno..

Llais 1: Roedd yna ddiwygwyr, dan arweiniad Martin Luther o'r Almaen, yn meddwl ei bod hi'n anghywir ...

Llais 3: Ar y cymun.

Llais 4: Dydym ni, ddiwygwyr, ddim yn credu bod y bara a'r gwin yn troi'n llythrennol i fod yn gorff a gwaed Crist.

Llais 3: Ar y weinidogaeth.

Llais 5: Dydym ni, ddiwygwyr, ddim yn credu bod gan offeiriaid unrhyw bwerau arbennig. Rydym ni'n credu bod pob crediniwr yn offeiriad.

Llais 6: Ac ar awdurdod eglwysig.

Llais 2 : Dydym ni, ddiwygwyr, ddim yn credu y dylai fod gan y Pab unrhyw awdurdod. Yr unig awdurdod i'r Eglwys yw'r Beibl.

Llais 3: Ac felly, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, fe ymrannodd Eglwys Rufain yn ddwy Eglwys – Eglwys Rufain ac Eglwys Ddiwygiedig.

Llais 1: Ond roedd y ddwy'n credu yn yr Un Duw – Creawdwr, Gwaredwr a Chynhaliwr.

Llais 4: Roedd Lloegr yn dal yn perthyn i Eglwys Rufain ...

Llais 2: Nes i Harri VIII benderfynu ochri gyda'r Diwygiad ...

Llais 3: Ac mi wyddom i gyd pam ...

Llais 1: Ond awn ni ddim ar ôl hynny nawr.

Llais 2: Dim ond dweud bod Eglwys Loegr wedi ymwahanu oddi wrth Eglwys Rufain.

Llais 3: A bod ei Deugain Erthygl Namyn Un – ei chyffes ffydd – yn dilyn syniadau'r diwygwyr.

Llais 4: Ac felly, yn Lloegr o hynny ymlaen yr oedd dwy Eglwys – Eglwys Rufain ...

Llais 5: A erlidiwyd am ganrifoedd ...

Llais 6: Ac Eglwys Loegr.

Llais 1: Ond roedd y ddwy yn credu yn yr Un Duw ...

Llais 2: Eglwys Loegr? Pam rwy'ti'n malu awyr am Loegr? Yng Nghymru'r ydym ni.

Llais 3: Ond roedd Harri VIII wedi gwneud Cymru'n rhan o Loegr.

Pawb : Bw!

Llais 2: O dipyn i beth, fe ddaeth y rhan fwyaf o bobl Cymru i berthyn i Eglwys Loegr.

Llais 1: Ac fe wnaeth yr Eglwys lawer dros Gymru.

Llais 4: Un o'n hesgobion ni a gyfieithodd y Beibl i Gymraeg.

Llais 5: Fe luniodd un o'n harchddiaconiaid ni salmau cân yn Gymraeg sy'n cael eu canu hyd heddiw.

Llais 6: Fe gyfieithwyd ein Llyfr Gweddi Gyffredin i Gymraeg bron o'r dechrau.

Llais 2: Ond yn fuan iawn, wyddoch chi beth?

Llais 3: Do, fe ymrannodd!

Llais 1: Roedd yn rai pobl yn credu nad oedd hi ddim yn mynd yn ddigon pell.

Llais 2: Y Bedyddwyr ...

Mae un person yn symud ymlaen, yn mynd i mewn i'r pulpud pellaf ar y chwith ac yn dweud:

Bedyddiwr: Os yr unig awdurdod i'r Eglwys yw'r Beibl, pam bod yr Eglwys yn bedyddio babanod? Nid yw'r Beibl yn dweud dim am fedyddio babanod. Roedd Iesu ei hun yn ddeg ar hugain oed pan fedyddiwyd ef. All bedyddio babanod ddim bod yn iawn. Fyddwn ni, Fedyddwyr, yn bedyddio neb ond oedolion o gredinwyr.

Llais 3: Y Presbyteriaid.

Mae un person yn symud ymlaen, yn mynd i mewn i'r pulpud nesaf ar y chwith ac yn dweud:

Presbyteriaid : Os yr unig awdurdod i'r Eglwys yw'r Beibl, pam bod gan yr Eglwys urdd ar wahân o esgobion? Nid yw'r Beibl yn dweud dim am urdd ar wahân o esgobion. Yn amser y Testament Newydd doedd yna ddim gwahaniaeth rhwng esgob ac offeiriad (presbyter). Rydym ni, Bresbyteriaid, yn cael ein harwain gan ... wel, gan ein presbyteriaid. Fynnwn ni ddim esgobion.

Llais 4: A'r Annibynnwyr ...

Mae un person yn mynd i mewn i'r pulpud nesaf ar y dde ac yn dweud:

Annibynnwr : Os yr unig awdurdod i'r Eglwys yw'r Beibl, pam bod gennym ni strwythurau eglwysig o gwbl? Roedd Iesu yn erbyn crefydd gyfundrefnol. I bobl gyffredin y rhoddodd ef y gwaith o gyhoeddi teyrnas Dduw. Fynnwn ni, Annibynnwyr, ddim offeiriad na strwythurau eglwysig cymhleth. Fe allwn ddod yn syth at Dduw trwy Iesu Grist.

Llais 1: Felly, fe roddodd y Refformasiwn broc i bethau. Bellach roedd yna:

Anglicaniaid: Anglicaniaid.

Bedyddiwr: Bedyddwyr.

Presbyteriaid : Presbyteriaid.

Annibynnwr : Ac Annibynnwyr .

Llais 2: Ond roeddem ni i gyd yn credu yn yr Un Duw – Creawdwr, Gwaredwr a Chynhaliwr.

Llais 3: Ac roeddem ni i gyd yn credu ein bod ni'n ffyddlon i ddysgeidiaeth Iesu a'r apostolion yn y Testament Newydd.

Llais 4: Ac felly y parhaodd pethau tan tua chanol y ddeunawfed ganrif. Ac yna ...

Llais 5 (yn griddfan): O na! Dim eto!

Llais 6: Ie, bobl! Dyna chi! Rhwyg arall!

Llais 5: Pwy y tro hwn?

Llais I: Dewch ymlaen, Fethodistiaid.

Mae 2 berson yn dod ymlaen. Mae un yn mynd i mewn i'r pulpud pellaf ar y chwith ac yn dweud:

Methodist Calфинаidd : Methodistiaid Calфинаidd ydym ni. Fe'n ganed ni o ddiwygiad mawr yng Nghymru a arweiniwyd gan dri Anglican – Howell Harris, Daniel Rowland a William Williams, Pantycelyn. Yr ydym yn dilyn athrawiaethau'r diwygiwr o'r unfed ganrif ar bymtheg, John Calfin, a oedd yn dysgu na all neb gael ei achub os nad yw'n un o etholedigion Duw. Yn wreiddiol, mintai o ddiwygwyr oddi mewn i Eglwys Loegr oeddem ni. Ond yn 1811 fe adawsom i sefydlu ein henwad ein hunain.

Mae'r llall yn mynd i mewn i'r pulpud nesaf at y Methodist Calфинаidd ac yn dweud:

Methodist: Methodistiaid Wesleiaidd ydym ni. Fe'n ganed ni o ddiwygiad yn Lloegr a arweiniwyd gan yr offeiriad Anglicanaidd John Wesley. Yr ydym yn dilyn athrawiaethau'r diwygiwr o'r unfed ganrif ar bymtheg, Jacob Armin, a oedd yn dysgu y gall pawb gael ei achub. Yn wreiddiol, mintai o ddiwygwyr oddi mewn i Eglwys Loegr oeddem ninnau. Ond yn 1795 fe adawsom i sefydlu ein henwad ein hunain.

Anglican: Ac felly y mae pethau yng Nghymru hyd heddiw.

Presbyteriad : Eglwys Gristnogol sy'n llwyr ranedig.

Bedyddiwr: Ac wedi bod yn anghristnogol iawn y naill at y llall..

Mae pawb yn dechrau pwyntio at ei gilydd a siantio enwau ar ei gilydd.

Pawb (wrth yr Anglican): Hen estrones! Hen estrones!

Pawb (wrth y Bedyddiwr): Hereticiaid! Dipwyr!

Pawb (wrth y Presbyteriad a'r Annibynnwr): Pengryniaid! Corddwyr!

Pawb (wrth y Methodistiaid Calфинаidd a Wesleiaidd): Methodistiaid creulon cas
Yn mynd i'r capel heb ddim gras!

Anglican: Yn y ganrif ddiwethaf, fe fu un datblygiad arwyddocaol ...

Methodist Calфинаidd : Ond yn Lloegr y bu hynny ...

Presbyteriad : Yn 1972 fe ddaeth y rhan fwyaf o Annibynnwyr a Phresbyteriaid Lloegr at ei gilydd i ffurfio'r Eglwys Unedig Ddiwygiedig.

Annibynnwr : Ac fe gafodd hynny effaith yma yng Nghymru am fod rhai o'r Annibynnwyr yng Nghymru a oedd yn addoli yn Saesneg wedi ymuno ...

Prebyteriad: Ac mae gan yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig sawl cynulleidfa yma yng Nghymru.

Methodist: Ond mae gennym ni o hyd ...

Anglican: Anglicaniaid. Ond ers 1920 rydym ni'n Eglwys genedlaethol – yr Eglwys yng Nghymru.

Bedyddiwr: Bedyddwyr .

Methodist: Methodistiaid.

Methodist Calфинаidd : Methodistiaid Calфинаidd. Ond bod gennym ni bellach enw newydd – Eglwys Bresbyteriaid Cymru.

EDdU: Eglwys Unedig Ddiwygiedig.

Anglican: A pheidiwch ag anghofio Eglwys Rufain.

Methodist: Na'r Eglwys Unionged.

Pawb: Ac rydym ni i gyd yn meddwl mai ein heglwys ni yw'r un, wir Eglwys.

Mae pawb yn canu:

Mewn dyddiau o dywyllwch,
a brwydro blin y gad,
ymladdodd y ffyddloniaid
yn ddewrion dros ein gwlad.
yr Efengyl
sy'n gollwng caeth yn rhydd,
gan arddel byth un Arglwydd,
un Eglwys ac un ffydd.

Traethasant

Anglican: Un Arglwydd?

Pawb: Ie, rydym ni i gyd yn credu yn yr un Arglwydd Iesu Grist.

EDdU: Un Ffydd?

Pawb: Ie, nid oes iachawdwriaeth ond trwy'r Arglwydd Iesu.

Bedyddiwr 3: Un Eglwys?

Distawrwydd.

Anglican: Rydym ni'n gwybod nad yw hi ddim yn iawn ein bod ni ar wahân.

Bedyddiwr: Rydym ni'n gwybod ein bod ni'n pechu yn erbyn Iesu.

Methodist: Oherwydd fe ddywedodd Iesu y nos cyn y croeshoeliwyd ef ...

Presbyteriad: 'Rwy'n gweddio ar iddynt oll fod yn un'.

EDdU: Ac mae ein diffyg undod yn llesteirio ein cenhadaeth i'r byd.

Methodist: Ond mae yna gymaint o wahaniaethau rhyngom.

Bedyddiwr: Mae hyd yn oed ein hadeiladau ni'n wahanol.

Anglican: Canolbwynt ein heglwysi ni yw'r allor.

Pawb arall: Canolbwynt ein capeli ni yw'r pulpud.

Anglican: Rydym ni'n credu mewn litwrgi.

Pawb arall: Mae gennym ni lai o litwrgïau – neu ddim o gwbl.

Anglican: Mae gennym ni wisgoedd offeiriadol.

Pawb arall: Gwisgoedd offeiriadol?

Anglican: Ac esgobion.

Pawb arall: O na! Dim esgobion!

Presbyteriad: Rydym ni'n gwybod y dylem ddod at ein gilydd. Ond mae'n anobeithiol!

EDdU: Ddylai Cristnogion byth anobeithio.

Bedyddiwr: Ond beth allwn ni ei wneud?

Cyd-ganant yn dawel:

A fyddwn ninnau'n llwfwfwr,
gan ofni gwawd a sen,
a chadw draw o'r ornest,
a cholli'r goron wen?
Na ato Duw! Gan Iesu
rhagorach trysor sydd,

os arddel wnawn un Arglwydd,
un Eglwys ac un ffydd.

Anglican: Y Cyfamod. Peidiwn ag anghofio ein bod ni wedi gwneud Cyfamod ...

Methodist: Gyda'n gilydd ac yng ngŷydd Duw.

Presbyteriad: Fe'i gwnaed yn 1975, ac fe ddywedodd pob un ohonom ...

Bedyddiwr: Ein bod yn gweld yn ein gilydd yr un ffydd yn Efengyl Iesu ...

EDdU: Yr un ymwybod â galwad Duw ...

Bedyddiwr: A'n bod ni i gyd yn perthyn i un Eglwys Crist.

Presbyteriad: Fe gydnabuasom fod aelodau ein holl Eglwysi yn aelodau o Grist oherwydd eu bedydd cyffredin a'u galwad gyffredin ...

Methodist: Bod gweinidogaeth ordeiniedig pob un o'n Heglwysi yn wir weinidogaeth y Gair a'r sacramentau ...

Anglican: A'n bod ni'n gweld yn ein gilydd batrymau addoli a bywyd sacramentaidd a nodau sancteiddrwydd sy'n amlwg yn ddoniau Crist ...

Presbyteriad: A'r un gofal am iawn lywodraethu'r Eglwys.

EDdU: Fe arwyddodd pob un ohonom ni'r Cyfamod.

Bedyddiwr: Am unwaith, roeddem ni oll yn gytûn.

Daw pawb o'i bulpud a sefyll gyda'i gilydd ym mlaen y llwyfan.

Anglican: Yr Eglwys yng Nghymru.

Bedyddiwr: Y Bedyddwyr. Neu o leiaf rai ohonom ni.

Methodist: Yr Eglwys Fethodistaidd.

Presbyteriad: Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

EDdU: A'r Eglwys Unedig Ddiwygiedig.

Methodist: Ac fe wnaethom ni addewid ...

Bedyddiwr: I weithredu a llefaru a gwasanaethu gyda'n gilydd mewn ufudd-dod i'r Efengyl ...

EDDU: I weithio gyda'n gilydd dros gyfiawnder a heddwch gartref a thramor ...

Presbyteriad: I chwilio am batrwm o weinidogaeth ordeiniedig ar y cyd ...

Anglican: I wrando ar ein gilydd ac i astudio gyda'n gilydd dystiolaeth ac arferion ein gwahanol draddodiadau ...

Bedyddiwr: I geisio ffurflywodraeth eglwysig y gallwn i gyd gytuno arni.

EDdU: Ac yn 2009 fe ddatganodd pawb ohonom ein bod ni am sefydlu Eglwys Cymru a fydd yn rhannu ...

Methodist: Un ffydd, un strwythur, un weinidogaeth ac un ffurflywodraeth,

Presbyteriad: Ond a fydd yn anrhydeddu ac yn dathlu'r gwahanol bwysleisiau diwinyddol ...

Anglican: A thraddodiadau addoli sy'n ffurfio'r cyfanrwydd ehangach ac yn ei gyfoethogi.

EDdU: Beth?

Methodist: Mi gollais innau hynnyn.

Presbyteriad: Mae'n golygu y byddem ni'n hoffi bod yn un Eglwys, ond yn Eglwys y byddai pawb ohonom yn gyffyrddus ynddi, lle y gallem ni addoli fel y dymunwn ...

Anglican: Gyda gwisgoedd offeiriadol a litwrgi ...

Bedyddiwr: Neu heb wisgoedd offeiriadol a litwrgi.

Anglican: Mewn eglwys draddodiadol ...

Methodist: Neu mewn capel.

EDdU: Yn Gymraeg ...

Bedyddiwr: Neu yn Saesneg.

Presbyteriad: Ond fe fyddai yna un corff yn gwneud y penderfyniadau drosom ni i gyd. Un Gymanfa Gyffredinol ...

Methodist: Neu Gynhadledd ...

Anglican: Neu Gorff Llywodraethol ...

EDdU: Neu Synod. Galwch ef beth a fynnoch.

Bedyddiwr: Ac un weinidogaeth.

Presbyteriad: Yn cynnwys esgobion?

Anglican: Rydym ni'n gweithio ar hynny.

Methodist: Wedi'r cyfan, arolygwyr bugeiliol yw esgobion ...

EDdU: Ac y mae gennym ni i gyd ryw fath o arolygiaeth fugeiliol ...

Presbyteriad: Ond mai criw o bobl, nid unigolyn, sy'n arolygu yn ein hachos ni.

Methodist: Arolygiaeth gyfunol nid bersonol.

Anglican: Mater yw hi, felly, o ystyried a oes patrwm a fyddai'n dderbyniol inni i gyd.

Bedyddiwr: Ac, o'r diwedd, mi fyddem yn perthyn i un Eglwys ...

EDdU: Lle y byddem ni'n gallu mwynhau cyfoeth treftadaeth ysbrydol ein gilydd.

Anglican: Fe fyddem ni'n atgoffa'r Eglwys o'r angen am ryddid ac amrywiaeth mewn diwinyddiaeth ac arferion.

Bedyddiwr: A ninnau mai bedydd yw nod sylfaenol arddel yr Arglwydd Iesu Grist.

EDdU: Mi fyddem ni'n ei hatgoffa o bwysigrwydd y gynulleidfa leol ac o offeiriadaeth yr holl gredinwyr.

Methodist: A ninnau bod iachawdwriaeth yn agored i bawb a bod yn rhaid pregethu'r Efengyl.

Presbyteriad: Ac mi fyddem ni'n ei hatgoffa o'i chenhadaeth benodol i bobl Cymru a bod yn rhaid wrth angerdd yn ei haddoliad.

Anglican: Fe ddeuem ni i'r Eglwys hon â chyfoeth ein Llyfr Gweddi Gyffredin, disgyblaeth ein blwyddyn eglwysig, Salmu Cân Edmwnd Prys.

Bedyddiwr: Fe ddeuem ni â gweledigaethau Bunyan a Spurgeon a Lewis Valentine.

EDdU: Fe ddeuem ni â dirnadaethau Richard Baxter, Jonathan Edwards a William Gurnall.

Methodist: A ninnau ag emynau John a Charles Wesley.

Presbyteriad: A ninnau ag emynau Cymraeg mawr Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths.

Methodist: Un Arglwydd ...

EDdU: Un Ffydd ...

Bedyddiwr: Ac o'r diwedd, un Eglwys.

EDdU: Eglwys eang ...

Bedyddiwr: Lle y câi ein hamrywiaeth ei hanrhydeddu a'i dathlu.

Mae pawb yn cofleidio.

Presbyteriad: Feiddiwn ni?

Anglican: Fentrwn ni mewn ffydd?

Methodist: Er budd cenhadaeth Duw i Gymru ...

EDdU: A than ei arweiniad,

Presbyteriad: Fel wrth enw Iesu y plyga pob glin ...

Anglican: Ac y cyffesa pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd ...

Pawb: Er gogoniant Duw Dad.

Cyd-ganant:

Ni phaid dy rad drugaredd,
ni phaid dy waith o'n tir.
Trwy gymorth dy ddeheulaw
cawn fuddugoliaeth wir.
Ac yna d'enw, Arglwydd,
yn ogoneddus fydd,
a'r gân am byth, un Arglwydd,
un Eglwys ac un ffydd.